Hawdd ei Ddeall



Llywodraeth Cymru
Welsh Government









# Ein cynllun ar gyfer cefnogi diwylliant yng Nghymru

## Rydyn ni eisiau gwybod beth rydych chi'n feddwl

Dogfen gan **Lywodraeth Cymru** yw hon. Mae'n fersiwn hawdd ei ddeall o '**Blaenoriaethau ar gyfer Diwylliant 2024-2030**'.

**Mai 2024**

# Sut i ddefnyddio'r llyfryn hwn

Dogfen hawdd ei deall yw hon. Ond efallai y byddwch chi dal angen cymorth i'w darllen. Gofynnwch i rhywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu chi.



Gallai geiriau mewn **ysgrifen glas trwm** fod yn anodd i'w deall. Gallwch wirio beth mae'r holl eiriau mewn glas yn eu golygu ar **dudalen 31**.

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn golygu **Llywodraeth Cymru** Am fwy o wybodaeth cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Gwefan:** https://www.llyw.cymru/blaenoriaethau-drafft-ar-gyfer-diwylliant-yng-nghymru-2024-i-2030

**E-bost:** Diwylliant@llyw.cymru

Mae'r ddogfen yma wedi cael ei gwneud yn hawdd ei deall gan **Hawdd ei Ddeall Cymru** gan ddefnyddio **Photosymbols**. I ddweud wrthym ni beth yw eich barn am y fersiwn hawdd ei ddeall hon, cliciwch yma.

**Rhif trwydded Photosymbols 403527247**

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

# Cynnwys

**Beth yw pwrpas y cynllun hwn**........................................................4

**Ein blaenoriaethau**........................................................................7

**Blaenoriaeth 1 - Mae diwylliant yn dod â ni at ein gilydd**........9

Beth ydym ni ei eisiau – ein huchelgeisiau..............................9

Beth mae hyn yn ei olygu.........................................................11

**Blaenoriaeth 2 – Cenedl o ddiwylliant**.......................................... 15

Yr hyn yr ydym ni ei eisiau – ein huchelgeisiau .....................15

Beth mae hyn yn ei olygu.........................................................16

**Blaenoriaeth 3 - Diwylliant cryf sy'n para'n hir**........................ 22

Beth ydym ni ei eisiau – ein huchelgeisiau............................23

Beth mae hyn yn ei olygu.........................................................24

**Geiriau anodd**.................................................................................. 31

# Beth yw pwrpas y cynllun hwn




Dyma ein cynllun ar gyfer **diwylliant** yng Nghymru.



Yn y cynllun hwn, pan fyddwn ni'n siarad am **ddiwylliant**, rydym ni'n golygu'r celfyddydau, treftadaeth, amgueddfeydd, archifau a llyfrgelloedd yng Nghymru.

Rydym ni wedi bod yn meddwl am sut fyddai'r rhain yn gallu :



- gweithio gyda'i gilydd,
- a gweithio gydag eraill i wneud bywyd yn well i bobl Cymru.



Rydym ni am **hyrwyddo** a diogelu ein diwylliant a'n hiaith Gymraeg.

Mae **hyrwyddo** yn golygu dangos i bobl pa mor dda ydy pethau.



Rydym ni eisiau i bobl ddathlu a mwynhau ein diwylliant.



Rydym ni am i bobl gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.

Gallai hyn fod yn bethau fel:



- mynd i wyliau
- mynd i sioeau



- cymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol



- ymweld ag adeiladau hanesyddol fel cestyll a henebion




- a mwynhau llyfrgelloedd, amgueddfeydd ac archifau.



Mae Llywodraeth Cymru a llawer o sefydliadau eraill wedi cael eu heffeithio gan doriadau mewn cyllid.



Rydym ni wedi bod yn meddwl am hyn wrth ddatblygu'r cynllun hwn.




Mae'r cynllun hwn ar gyfer 2024 i 2030. Byddwn yn parhau i edrych ar y cynllun hwn i sicrhau ei fod yn addas.




Byddwn yn diweddaru hyn yn 2026.



Cyn i ni orffen y cynllun hwn, mae angen i ni wybod beth yw eich barn chi.




Darllenwch y ddogfen hon ac yna atebwch y cwestiynau yn y ffurflen ymateb.

# Ein blaenoriaethau




Mae'r cynllun hwn yn meddwl am ein **blaenoriaethau** ar gyfer diwylliant.

**Blaenoriaethau** yw'r pethau pwysicaf yn ein barn ni. Blaenoriaethau yw'r prif bethau rydym ni am eu cyflawni.



Fe wnaethom siarad â llawer o bobl cyn ysgrifennu ein **blaenoriaethau**. Fe wnaethom ni ddarganfod beth maen nhw'n meddwl sy'n bwysig i'r cynllun hwn.




Mae gan ein cynllun 3 **blaenoriaeth**.



Mae ein **blaenoriaethau** yn gysylltiedig â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**.




Mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** yn gyfraith sy'n ymwneud â gwella bywyd yng Nghymru i bobl nawr ac yn y dyfodol.

Ein **blaenoriaethau** yw:



1. **Mae diwylliant yn dod â ni at ein gilydd**



2. **Mae Cymru yn genedl o ddiwylliant**



3. **Mae diwylliant yng Nghymru yn gryf ac yn para’n hir**

# Blaenoriaeth 1 - Mae diwylliant yn dod â ni at ein gilydd



Dylai pawb allu cymryd rhan mewn diwylliant. Gall diwylliant helpu i feithrin cysylltiadau rhwng pobl.

## Beth ydym ni ei eisiau – ein huchelgeisiau

1. **Mae diwylliant yn gynhwysol, yn hygyrch ac yn amrywiol.**



Mae **cynhwysol** yn golygu bod pawb yn cael eu cynnwys.




Mae **hygyrchedd** yn golygu bod pawb yn gallu dod o hyd i rywbeth a'i ddefnyddio.



Mae **amrywiol** yn golygu nad yw pobl yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o gefndiroedd gwahanol, yn gwneud dewisiadau gwahanol neu'n dda mewn pethau gwahanol.



2. **Mae tegwch a hawliau wrth wraidd diwylliant yng Nghymru.**



3. **Rydym ni'n dysgu oddi wrth ein gorffennol ac yn cofio gyda'n gilydd.**



4. **Mae diwylliant yn ymwneud â lleoedd ac yn cefnogi llesiant cymunedol.**

Mae **llesiant** yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'i fywyd a'r hyn mae'n ei wneud.



5. **Mae diwylliant yn cynnwys pethau sy'n bwysig i blant a phobl ifanc.**



6. **Mae diwylliant yn helpu i gysylltu pobl o bob oed.**

## Beth mae hyn yn ei olygu

**Uchelgais 1**



Dylai pawb gael yr un cyfleoedd i fwynhau diwylliant.



Mae angen inni gael gwared ar rwystrau. Rydym ni am i bawb gael y cyfleoedd gorau i fwynhau a chymryd rhan yn ein diwylliant.



Rydym ni eisiau i bawb deimlo bod croeso iddyn nhw a'u bod nhw'n cael eu cynrychioli yn ein diwylliant.

**Uchelgais 2 a 3**



Dylai pawb gael dweud beth sy'n cyfrif fel diwylliant.



Dylai pobl fod yn rhan o benderfyniadau sy’n effeithio arnyn nhw.



Mae angen inni edrych ar ein hanes gyda’n gilydd. Mae angen inni ddysgu o ddigwyddiadau’r gorffennol.

**Uchelgais 4**



Mae gan bob cymuned ei diwylliant ei hun. Yn aml, mae’n ymwneud â’r tir, enwau lleoedd, adeiladau, straeon a hanesion o’u cwmpas.



Rydym ni am helpu cymunedau i gysylltu trwy ddiwylliant lleol. Mae diwylliant yn gallu rhoi teimlad o berthyn a balchder i bobl yn eu hardal leol.

**Uchelgais 5**



Mae gan bob plentyn yr hawl i:

- ymlacio
- chwarae
- a chymryd rhan mewn diwylliant.



Plant a phobl ifanc fydd yn gofalu am ddiwylliant yng Nghymru yn y dyfodol.



Rydym ni eisiau i blant gymryd rhan mewn diwylliant a mwynhau diwylliant o oedran cynnar.



Rydym ni eisiau i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar ddiwylliant.

**Uchelgais 6**



Mae poblogaeth Cymru yn tyfu’n hŷn.



Rydym ni’n credu y dylai diwylliant helpu i gefnogi **llesiant** pobl hŷn a chysylltu pobl o wahanol oedran.



Mae llawer o bobl hŷn yn cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol. Rydym ni eisiau iddyn nhw rannu eu straeon personol, eu gwybodaeth a’u sgiliau. Bydd hyn yn helpu i greu cysylltiadau cryfach rhwng pobl o bob oed.

# Blaenoriaeth 2 – Cenedl o ddiwylliant



Mae diwylliant yn rhan bwysig o'n **hunaniaeth**. Mae diwylliant yn cael ei ddathlu. Ac mae'n ein helpu i wneud cysylltiadau dwfn a pharhaol gyda gwledydd eraill ar draws y byd.

**Hunaniaeth** yw'r holl bethau sy'n gwneud person neu grŵp o bobl yn unigryw. Mae **hunaniaeth** yn gallu golygu sut ydyn ni'n meddwl am ein hunain – fel person, grŵp o bobl, cymuned a gwlad.

## Yr hyn yr ydym ni ei eisiau – ein huchelgeisiau




**7. Mae diwylliant yn cefnogi ac yn hyrwyddo'r Gymraeg.**




**8. Mae diwylliant yn rhan bwysig o'r holl broses o lunio polisïau yng Nghymru.**



**9. Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn gwella llesiant pobl a chymunedau.**



10. **Mae angen i sefydliadau diwylliant gydweithio i wneud diwylliant yn fwy pwerus i bawb.**



11. **Mae diwylliant yn rhan bwysig o dwristiaeth. Mae pobl yn dod i Gymru i brofi ein diwylliant.**



12. **Mae ein diwylliant yn rhan o'n perthynas â gwledydd eraill.**

## Beth mae hyn yn ei olygu


**Uchelgais 7**




Mae'r Gymraeg yn perthyn i holl bobl Cymru. Dylem ni **hyrwyddo'r** iaith yn ein holl waith.



Mae gweithgareddau diwylliannol yn Gymraeg yn helpu pobl i ddysgu Cymraeg yn gyflymach neu'n well.




Mae hyn yn bwysig er mwyn cyrraedd ein targed o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Ac i ddyblu'r faint o'r Gymraeg sy'n cael ei ddefnyddio bob dydd erbyn 2050.




Mae siarad Cymraeg yn sgil gwerthfawr mewn sefydliadau diwylliannol.




Rydym ni hefyd eisiau cefnogi ieithoedd eraill sy'n cael eu defnyddio gan gymunedau.

**Uchelgais 8, 9 a 10**



Mae diwylliant yn rhan bwysig o iechyd a **llesiant** pobl.



Mae sefydliadau diwylliannol yn gweithio'n dda gyda phartneriaid i roi mwy o gyfleoedd i bobl.



Dylai sefydliadau ddatblygu partneriaethau newydd a phresennol. Bydd hyn yn helpu i ddod â diwylliant i feysydd fel iechyd, addysg, twristiaeth a delio â thlodi.

**Uchelgais 11**



Mae twristiaeth yn gwneud arian gan bobl sy'n dod i ymweld â Chymru.



Mae twristiaeth yn creu swyddi a chyfleoedd busnes.



Mae hyn yn cefnogi **economi** Cymru.

Yr **economi** yw faint o arian sydd gan wlad.



Mae pobl eisiau dod i Gymru ac ymweld â lleoedd i brofi ein diwylliant. Mae ein diwylliant yn cefnogi twristiaeth Cymru ac yn helpu i **hyrwyddo** Cymru i'r byd.



Byddwn yn parhau â'n gwaith i gysylltu diwylliant gyda thwristiaeth a digwyddiadau.

**Uchelgais 12**



Mae rhannu ein celf, diwylliant a hanes yn rhan bwysig o feithrin perthynas gyda gwledydd eraill.




Rydym ni eisiau gwneud yn siwr bod diwylliant yn chwarae rhan wrth ddweud wrth y byd am Gymru.


## Uchelgais 13



Mae ein diwylliant yn unigryw inni ac  mae'n ein helpu i deimlo ein bod yn Gymry.




Mae angen inni ddathlu ein hanes a'n traddodiadau, ond hefyd mae angen i ni groesawu a dathlu **traddodiadau** a diwylliant newydd.



Mae **traddodiadau** yn golygu arferion sy'n cael eu pasio ymlaen dros y blynyddoedd.



Mae gennym ni lawer i'w gynnig y gallwn ni ei rannu ag eraill.




Mae diwylliant yn werth ei ddathlu a'i rannu. Mae angen inni chwilio am gyfleoedd a chreu cyfleoedd drwy gydol y flwyddyn i ddathlu diwylliant yng Nghymru.



Mae Dydd Gŵyl Dewi yn ddiwrnod pwysig. Dylai pawb allu ymuno, cael hwyl a dathlu'r diwrnod.



Gallwn hefyd ddefnyddio digwyddiadau mawr fel Diwrnod y Llyfr a Diwrnod Treftadaeth y Byd i ddangos ein diwylliant.



Mae digwyddiadau lleol a chenedlaethol fel Dydd Miwsig Cymru yn rhoi cyfle i bob un ohonom ni ddathlu Cymru.

# Blaenoriaeth 3 - Diwylliant cryf sy'n para'n hir



Rydym ni'n parchu pethau fel

- amgueddfeydd
- llyfrgelloedd ac archifau
- theatrau ac orielau
- ac adeiladau a henebion hanesyddol.




Mae'r celfyddydau, cerddoriaeth, iaith, **traddodiadau**, straeon a hanesion yn bwysig inni.



Mae gennym ni weithlu da a chryf gyda sgiliau arbenigol yn gweithio mewn sefydliadau diwylliannol.



Mae ein diwylliant yn ein cynrychioli ni a'r materion yn y byd heddiw.

# Beth ydym ni ei eisiau – ein huchelgeisiau



13. Rydym ni'n gofalu am ein casgliadau o bethau diwylliannol a hanesyddol. Rydym ni'n gallu eu defnyddio i helpu ni i ddysgu, bod yn greadigol ac ar gyfer **llesiant**.



14. Mae angen i sefydliadau gael cynllun i ddiogelu ein pethau diwylliannol a hanesyddol.



15. Mae angen cofnodi a rhannu pethau fel **traddodiadau**, straeon a hanesion ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.



16. Rydym ni'n gallu defnyddio technoleg i gefnogi diwylliant.



17. Mae angen cynlluniau tymor hir ar gyfer cydweithio ar ymchwil a chasglu tystiolaeth.



**18. Mae'n wych gweithio a gwirfoddoli mewn sefydliad diwylliannol yng Nghymru.**



**19. Mae angen i sefydliadau diwylliannol weithio gyda'i gilydd i ymateb i newid yn yr hinsawdd.**

## Beth mae hyn yn ei olygu

**Uchelgais 14, 15 ac 16**

Mae pa mor dda y gallwn ni ofalu am ein lleoedd a'n pethau hanesyddol yn dibynnu ar y canlynol:




- cael pobl sydd â'r sgiliau a'r wybodaeth gywir
- cyfreithiau a rheolau



- canllawiau
- ariannu



Mae pobl sy'n berchen ar leoedd hanesyddol angen gwybodaeth a chyngor ar sut i'w diogelu.


Mae'n rhaid inni wneud y canlynol:



- Gofalu am ein hadeiladau a'n henebion hanesyddol.
- Gofalu am ein casgliadau o bethau diwylliannol a hanesyddol.
- Creu lleoedd lle mae pobl yn gallu gweld y rhain.



Rydym ni angen cynllun ar gyfer sut rydym ni'n gofalu am gasgliadau cenedlaethol. Byddai hyn yn ein helpu i reoli eitemau hanesyddol pwysig yn well.



Byddwn hefyd yn diogelu pethau dydyn ni ddim yn gallu eu gweld a'u cyffwrdd. Roedd pethau fel **traddodiadau**, sgiliau a defodau yn cael eu pasio o genhedlaeth i genhedlaeth.



Rydym ni'n falch bod y DU wedi arwyddo confensiwn (cytundeb) y **Cenhedloedd Unedig** ynghylch diogelu pethau fel hyn.

**Uchelgais 17**



Mae angen i ni ddefnyddio technoleg i gefnogi diwylliant.



Gall technoleg ein helpu ni i gyd-gysylltu a rhannu ein diwylliant a'n heitemau hanesyddol pwysig.

Gall pobl ddefnyddio pethau fel cyfrifiaduron a ffonau clyfar i wneud pethau fel:




- cael gwybodaeth am ddigwyddiadau
- archebu tocynnau
- gwylio digwyddiadau ar-lein
- ac ymweld ag amgueddfeydd ar-lein.



Bydd datblygu sut rydym ni'n defnyddio technoleg yn helpu llawer mwy o bobl i fwynhau ein diwylliant.



Trwy gael gwybodaeth ar-lein, mae pobl ar draws y byd yn gallu gwybod mwy am ein diwylliant.




Gallwn ni gynnal arddangosfeydd a pherfformiadau ar-lein.



Gallwn ni ei gwneud hi'n haws i bobl ar draws Cymru gael mynediad at bethau a mwynhau'r rhain.



Ond mae'n rhaid inni wneud yn siŵr ein bod ni'n cadw pethau'n ddiogel.



Mae sefydliadau'n gallu cefnogi ei gilydd i ddefnyddio technoleg yn well a gwella sgiliau eu staff a'u gwirfoddolwyr.



Mae sefydliadau'n gallu defnyddio technoleg mewn ffyrdd sy'n ein helpu i ofalu am y blaned.



Byddwn yn gweithio gyda phobl i ddeall effaith **Deallusrwydd Artiffisial**. Mae **deallusrwydd artiffisial** yn gwneud i beiriannau ddysgu a gwneud penderfyniadau fel eu bod nhw'n gallu gwneud tasgau rydyn ni'n meddwl amdanyn nhw fel tasgau 'clyfar'.

**Uchelgais 18**



Rydym ni angen ffordd well o weithio gyda'n gilydd i gasglu data a thystiolaeth.



Gallwn rannu beth rydyn ni'n ei wybod am ddiwylliant a hanes i wella gweithgareddau diwylliannol. A chynllunio ar gyfer y dyfodol.



Mae angen inni weithio gyda sefydliadau ymchwil Cymru, yn enwedig gyda phrifysgolion a cholegau. Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu ffordd well o ymchwilio i ddiwylliant yng Nghymru.

**Uchelgais 19**



Rydym ni angen gweithlu gyda'r sgiliau cywir.



Rydym ni eisiau i gyflogwyr fod yn deg. Ac i bobl sy'n cael eu cyflogi gael cyflog cyfartal.




Rydym ni hefyd eisiau cefnogi pobl hunangyflogedig sy'n gweithio mewn sefydliadau a gweithgareddau diwylliannol. Rydym ni eisiau gwella eu sgiliau a'u hamodau gwaith.



Rydym ni eisiau i weithleoedd fod yn decach, yn fwy **cynhwysol** ac i wella **cydraddoldeb**.




Mae **cydraddoldeb** yn golygu trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.



Rydym ni eisiau gwella cefnogaeth i wirfoddolwyr.



Mae angen inni weithio gyda lleoedd dysgu i gynnig hyfforddiant am ddiwylliant.

**Uchelgais 20**



Mae sefydliadau a gweithgareddau diwylliannol yn gallu helpu pobl i ddeall newid yn yr hinsawdd.



Rydym ni eisiau i sefydliadau diwylliannol ddod o hyd i ffyrdd o ymateb i newid yn yr hinsawdd a chyrraedd **sero-net**.



Mae **sero net** yn golygu ein bod ni ddim yn cynhyrchu mwy o garbon na faint sy’n cael ei lanhau allan o’r aer.



Mae’n rhaid inni ddod o hyd i ffyrdd o reoli effaith newid hinsawdd ar ddiwylliant. Er enghraifft, stormydd a llifogydd sy’n effeithio ar leoedd diwylliannol a hanesyddol.

# Geiriau anodd

### Amrywiol

Mae amrywiol yn golygu nad yw pobl yr un fath. Er enghraifft, mae pobl yn dod o gefndiroedd gwahanol, yn gwneud dewisiadau gwahanol neu'n dda mewn pethau gwahanol.

### Blaenoriaethau

Blaenoriaethau yw'r pethau pwysicaf yn ein barn ni. Blaenoriaethau yw'r prif bethau rydym ni am eu cyflawni.

### Cydraddoldeb

Mae cydraddoldeb yn golygu trin pobl yn deg a gwneud yn siŵr eu bod nhw'n cael yr un cyfleoedd mewn bywyd.

### Cynhwysol

Mae cynhwysol yn golygu bod pawb yn cael eu cynnwys.

### Economi

Yr economi yw faint o arian sydd gan wlad.

### Hunaniaeth

Hunaniaeth yw'r holl bethau sy'n gwneud person neu grŵp o bobl yn unigryw. Mae hunaniaeth yn gallu golygu sut ydyn ni'n meddwl am ein hunain – fel person, grŵp o bobl, cymuned a gwlad.

### Hyrwyddo

Mae hyrwyddo yn golygu dangos i bobl pa mor dda ydy pethau.

### Hygyrch

Mae hygyrchedd yn golygu bod pawb yn gallu dod o hyd i rywbeth a'i ddefnyddio.

## Llesiant

Mae llesiant yn golygu bod person yn hapus, yn iach ac yn gyfforddus gyda'i fywyd a'r hyn mae'n ei wneud.

## Traddodiadau

Mae traddodiadau yn golygu arferion sy'n cael eu pasio ymlaen dros y blynyddoedd.